Chwefror 2017

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru



© Hawlfraint y Goron 2017 WG30448 / ISBN digidol 978-1-4734-8640-9

# Rhagair

Mae prentisiaethau yn elfen hanfodol o lwyddiant economaidd ac yn offeryn hanfodol wrth adeiladu Cymru gryfach, decach a mwy cyfartal. Drwy alluogi rhagor o bobl i gyflawni eu potensial llawn a chodi lefelau sgiliau i gwrdd ag anghenion cyflogwyr, gallwn yrru cynhyrchiant a ffyniant yn ein heconomi a chreu cymunedau mwy gwydn. Mae ein buddsoddiad mewn sgiliau'n fuddsoddiad yn nyfodol ein gwlad, yn ein busnesau ac yn ein pobl.

Mae cynhyrchu ein Polisi Prentisiaethau a'i Gynllun Gweithredu pum mlynedd yn amlinellu sut bydd Prentisiaethau yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o swyddi o safon uwch drwy economi gryfach a thecach. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu enw da iawn am weithio gyda'n partneriaid cymdeithasol mewn busnes ac undebau llafur i greu Prentisiaethau sy'n cael eu cydnabod ledled y Deyrnas Unedig ac Ewrop am eu hansawdd a'u safon. Ein nod yw adeiladu ar yr hyn rydym wedi ei gyflawni'n barod fel y gellir gwireddu manteision y rhaglen gan rychwant ehangach o gyflogwyr ac unigolion ar draws Cymru. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i 100,000 o leoedd i Brentisiaid dros y pum mlynedd nesaf.

Mae Cymru yn yr 21ain ganrif yn amrywiol ac yn gymhleth, ac mae angen i'n rhaglenni ymateb yn briodol i hynny. Mae angen i ni gefnogi pobl pan fyddant ei angen fwyaf, ac arfogi gwasanaethau i ymateb i heriau, fel poblogaeth sy'n heneiddio, newid yn yr hinsawdd, technolegau newydd a globaleiddio. Yr unig ffordd o fynd i'r afael â'r materion sy'n ein hwynebu yw drwy ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys rhaglenni cydgysylltiedig sy'n atgyfnerthu ac yn adeiladu ar yr hyn y mae pobl a chymunedau yn ei wneud drostynt eu hunain. Rydym wedi cychwyn trefniadau cynllunio yn barod i ysgogi Prentisiaethau i gefnogi ymrwymiadau a amlinellir yn *Symud Cymru Ymlaen*, gan *ganolbwyntio* ar feysydd fel: Tai, Cludiant, Gofal Plant, Diwylliant a Thwristiaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn hefyd o gymorth i ddiwygio sgiliau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn helpu i adeiladu Cymru sy'n unedig, yn gysylltiedig ac yn fwy cynaliadwy.

Bydd Prentisiaethau, ynghyd â'n Rhaglen Cyflogadwyedd newydd, yn cefnogi unigolion o bob oed i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd i mewn i'r farchnad lafur ac, yn bwysig, i symud ymlaen drwy'r farchnad i waith sgiliau uwch. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad fel Llywodraeth Cymru i greu gwell swyddi yn nes at adref.

Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant yng Nghymru lle mae recriwtio prentis yn dod yn norm ar gyfer cyflogwyr, gan roi mynediad i unigolion at gyfleoedd am swyddi a sgiliau o ansawdd uchel. Byddwn yn dechrau ar ein gwaith ar hyn ar draws ardal Tasglu'r Cymoedd.

Rydym yn gwybod y bydd y swyddi'r dyfodol yn gofyn am lefelau llawer uwch o fedrusrwydd nag yn y gorffennol. Er mwyn ateb yr her hon, bydd angen i Brentisiaethau integreiddio'n fwy effeithiol i'r system addysg ehangach ac i ffabrig economaidd Cymru. Mae angen cydweithredu cryfach rhwng







addysg academaidd a galwedigaethol, a'r ffordd y mae'r systemau hyn yn gweithio gyda'i gilydd. Bydd yr ymagwedd hon yn hwyluso cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel o fewn cymunedau lleol ledled Cymru. Byddwn yn dwysáu ein ffocws ar sectorau technegol a phroffesiynol ac yn amlinellu llwybr cliriach i Brentisiaethau o ysgolion. Bydd hyn yn anfon neges gref am werth Prentisiaethau ac addysg alwedigaethol wrth gefnogi pobl iau i mewn i gyflogaeth gynaliadwy a hunangyflogaeth. Mae angen i lwybrau prentisiaeth fod yn ddewis amgen credadwy i'r llwybr academaidd, ac mae angen i bobl ifanc gael y cyfle i brofi'r buddiannau a ddaw yn sgil llwybr gyrfa galwedigaethol.

Mae cyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau yn creu ysgogiad newydd ar gyfer lleoedd i Brentisiaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Yng Nghymru, mae cyflogwyr yn awyddus i ddeall sut gallant wireddu buddiannau'r dreth cyflogaeth newydd a yrrir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r rhaglen Prentisiaethau wedi ei chynllunio i gwrdd ag anghenion cyflogwyr sy'n talu'r ardoll a'r rhai nad ydynt yn talu'r ardoll, a bod lleoedd Prentisiaethau ar gael yn rhwydd mewn meysydd blaenoriaeth drwy ein rhwydwaith o ddarparwyr Prentisiaethau. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr ac rydym yn mynd ati i annog busnesau i gynnig eu hunain a recriwtio drwy ein rhaglen Brentisiaethau mewn meysydd technegol a phroffesiynol, drwy gyfres o ddigwyddiadau marchnata a chyfathrebu.

Mae cyflogwyr yn disgwyl dylanwadu'n uniongyrchol ar ddyluniad yr addysg maent yn ei chael drwy'r rhaglen Brentisiaethau. Rydym yn cydnabod fod yn rhaid i'r system Prentisiaethau gyfan fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion y diwydiant, sy'n newid yn gyson ac yn gyflym. Rydym yn bwriadu defnyddio Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru fel y cyfrwng i'n helpu gyda'r datblygiadau Prentisiaethau newydd yn y maes hwn.

Mae ein polisi'n cynnig heriau a chyfleoedd – darpariaeth ar gyfer pob oed, ehangu sgiliau lefel uwch a mwy o ymgysylltu â chyflogwyr mewn rhannau penodol o'r economi. Rwyf yn annog cyflogwyr, darparwyr a chyrff ategol i gydweithio i greu rhaglen Brentisiaethau gryfach a'n helpu i ddarparu ar gyfer y genhedlaeth nesaf o brentisiaid y gallwn barhau i ymfalchïo ynddi.

Yn olaf, mae ein rhaglen Brentisiaethau yn derbyn arian o Gronfa Gymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd yng ngorllewin Cymru a chymoedd a dwyrain Cymru. Mae'n anochel bod y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd yn creu ansicrwydd ymysg cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a phawb arall sydd â diddordeb. Fodd bynnag, mae Prif Weinidog Cymru wedi nodi'n glir y dylem negodi i barhau i gymryd rhan, ar y telerau presennol, ym mhrif raglenni'r Undeb Ewropeaidd hyd ddiwedd 2020.

**Julie James AM**
Y Gweinidog
Sgiliau a
Gwyddoniaeth



# Crynodeb Gweithredol

Mae Cymru wedi datblygu rhaglen Brentisiaethau lwyddiannus iawn, a luniwyd mewn partneriaeth â busnesau yng Nghymru gan ganolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae cyflogwyr[1] a phrentisiaid yn gweld gwerth mawr yn y rhaglen ac mae ein cyfraddau llwyddiant o ran y fframwaith yn gyson uwch na 80%. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau yn y galw gan gyflogwyr a dysgwyr yn ogystal â chyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, mae angen ailystyried yn awr sut y bydd y rhaglen yng Nghymru'n gweithredu ac ystyried sut i'w datblygu ymhellach i ymateb i newidiadau yn anghenion economi Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Yn ôl rhagamcanion data 'Looking Forward', rhwng 2004 a 2024, rhagwelir y bydd cyfran y rhai sydd mewn cyflogaeth y bydd gofyn iddynt fod â chymhwyster ar lefelau 4-6 yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn dyblu bron o 22 y cant i 40 y cant. Erbyn 2024, rhagwelir y bydd mwy na hanner (51 y cant) y rhai sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru'n dal cymwysterau ar lefel 4 neu'n uwch. Mae hyn yn cyferbynnu â chyfran o tua chwarter yn 2004 (28 y cant).





Yn hanesyddol, mae llawer o'n Prentisiaethau wedi cael eu darparu ar lefel mynediad (Lefel 2) gan gefnogi rhannau helaeth o'r economi sylfaenol ar draws Cymru, gyda niferoedd cymharol llai ar draws ein heconomi gwybodaeth a thechnegol (Lefel 3-6). Os bydd cydbwysedd y rhaglen yn parhau i fod heb ei newid, yna bydd llawer mwy o Brentisiaethau yn cael eu cynnig mewn meysydd lle mae manteision cyfyngedig o ran cyflogau a dilyniant gyrfa. Mae yna hefyd berygl y bydd y rhaglen yn gwneud cyfraniad cyfyngedig at ein twf economaidd yn y dyfodol o ran cymwysterau a sgiliau lefel uwch.

[1] *Mewn gwerthusiad annibynnol, cafwyd bod mwyafrif y cyflogwyr yn fodlon ar eu profiad o Brentisiaethau a'u bod yn dweud ei bod yn debygol y byddant yn cynnig Prentisiaethau yn y dyfodol: www.gov.wales/statistics-and-research/evaluation-work-based-learning/?lang=cy*
*Comisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau, Working Futures projections for employment change by occupation, 2010–2020*
*Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, Winning the Global Race? Jobs, Skills and the Importance of Vocational Education (2014)*

Mewn ymateb i'r heriau hyn ac ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddatblygu Prentisiaethau a gynhaliwyd yn 2015, ein blaenoriaethau ar gyfer cyflawni yng Nghymru rhwng 2016 a 2022 yw:

- **Ymateb i brinder sgiliau dybryd –** datblygu Prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau sy'n tyfu a chategorïau swyddi sy'n datblygu, yn unol â blaenoriaethau a bennwyd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

- **Cyflwyno ymagwedd bob oedran.** Ym mis Awst 2016, cyflwynom ein hymagwedd tuag at Brentisiaethau pob oedran, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n ceisio mynediad at y farchnad lafur neu ailymuno â hi. O fewn yr ymagwedd honno rydym yn bwriadu cynyddu nifer y bobl ifanc 16-19 oed sy'n ymgymryd â Phrentisiaethau, gan ganolbwyntio ar bontio ymadawyr ysgol i gyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel.

- **Swyddi a thwf –** sicrhau bod y rhaglen yn gwella ei chyfraniad tuag at sgiliau lefel uwch – gan ganolbwyntio ar Brentisiaethau ar lefel 3 ac uwch, lle mae enillion yn tueddu i fod yn uwch a lle mae'r llwyddiant mwyaf yn cael ei weld mewn cyflawniadau gan wledydd eraill Ewrop. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd a pherthnasedd Prentisiaethau Sylfaen (lefel 2) i benderfynu a oes angen ymagwedd newydd er mwyn cwrdd â'r gofynion sgiliau ar gyfer swyddi lefel mynediad.

- **Ansawdd a Meincnodi –** Gwella mesurau perfformiad. Ar hyn o bryd mae llwyddiant y rhaglen Brentisiaethau yn cael ei fesur drwy gyfraddau llwyddiant o ran y fframwaith. Yn y dyfodol bydd mwy o sylw'n cael ei roi i lwyddiant drwy sicrhau cyflogaeth ystyrlon a chynaliadwy. Mae cystadlaethau sgiliau a gynhelir o amgylch y byd yn arddangos ac yn ysbrydoli rhagoriaeth o'r radd flaenaf mewn sgiliau ac yn cyflwyno amrywiaeth o yrfaoedd medrus i bobl ifanc. Bydd ein gwaith ar gystadlaethau sgiliau yn ein helpu ni i feincnodi ein prentisiaid mewn cymhariaeth â Chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig a sgiliau rhyngwladol.

- **Gwella Mynediad, Cydraddoldeb a Chyfle Cyfle Cyfartal –** Rydym yn helpu pobl i gael cyflogaeth am y tro cyntaf ac yn canolbwyntio o'r newydd hefyd ar helpu pobl i symud ymlaen yn y gweithle drwy gael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant o ansawdd uwch. Byddwn yn parhau i ofalu bod y grwpiau hynny sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar ein rhaglen ac rydym wedi penodi hyrwyddwr cydraddoldeb yn unswydd i ymgymryd â'r gwaith hwn. O ran mynediad, mae angen i'r holl ddysgwyr a chyflogwyr gael gwybod pa ddarpariaeth sydd ar gael iddynt, pryd y mae recriwtio'n digwydd a pha mor hir fydd y rhaglen yn parhau. Bydd y rhyngwyneb digidol i helpu cyflogwyr i ddod o hyd i ddarparwyr a phrentisiaid yn cael ei wella.

- **Darparu Prentisiaethau yn Gymraeg –** bydd cyfleoedd gwell i ddilyn Prentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan sicrhau y bydd pob dysgwr yn cael cyfle i gynnal a datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg.

- **Datblygu llwybrau sgiliau –** integreiddio Prentisiaethau â'r system addysg ehangach. Creu cydweithredu cryfach rhwng addysg academaidd ac addysg alwedigaethol ac edrych ar y ffordd mae'r systemau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cynnig

cynhwysfawr cyfunol ar gyfer Prentisiaethau. Bydd canlyniad Adolygiad Diamond yn ategu datblygiadau mewn Prentisiaethau ar lefel gradd. I gyflawni'r newid sylweddol hwn yn y rhaglen, rhoddir rhagor o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a'r sector addysg uwch.

- **Sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu fframweithiau – **er mwyn sicrhau bod Prentisiaethau'n cael eu cynllunio i gwrdd ag anghenion cyflogwyr a'u bod yn ymateb i newidiadau mewn diwydiant.

Elfen ganolog yn y broses o gynllunio Prentisiaethau yw ein hymrwymiad i greu o leiaf 100,000 o Brentisiaethau i bob oed dros dymor y Cynulliad hwn yn ogystal â hyrwyddo a gwella'r llwybr ennill wrth ddysgu ar draws y sector ôl-16 gan gwmpasu dysgu academaidd a galwedigaethol.

## Beth fydd effaith y newidiadau hyn?

Erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, bydd y rhaglen Brentisiaethau wedi ei chysoni i ymateb i newidiadau yn anghenion economi Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r canlynol:

- Gwell mesurau perfformiad ar gyfer Prentisiaethau, yn cynnwys mesurau o ganlyniadau cyflogaeth.
- Llwybrau cliriach at Brentisiaethau i rai 16-19 oed lle mae cyfleoedd/lleoedd gwag yn cael eu hyrwyddo'n agored gan gyflogwyr i ddenu'r ymgeiswyr gorau.
- Mwy o ymwybyddiaeth o Brentisiaethau ymysg pobl ifanc, rhieni ac ysgolion.
- Mwy o brentisiaid yn cymryd Prentisiaethau lefel uwch, yn enwedig mewn pynciau STEM a/neu sectorau sydd â blaenoriaeth.
- Tystiolaeth o newid yn y ddarpariaeth tuag at Brentisiaethau o werth uwch gyda chanlyniadau llwyddiannus o ran dilyniant, cwblhau a chyflogaeth gynaliadwy.
- Mwy o integreiddio a chysoni wrth ddarparu Prentisiaethau ac addysg bellach mewn meysydd pwnc technegol a galwedigaethol ar gyfer rhai 16-19 oed, gyda thystiolaeth o ddilyniant a defnydd effeithlon o adnoddau rhwng y sectorau hyn.
- Cydweithio rhanbarthol cryf rhwng sefydliadau dysgu, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol i ddarparu'r sgiliau y mae ar gyflogwyr eu hangen.
- Mwy o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu a chyfrannu at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd o leiaf 100,000 o bobl wedi dechrau Prentisiaeth gyda'r cyfle i gael cyflogaeth neu hunangyflogaeth barhaus ar y diwedd, ac yn y pen draw yn cefnogi datblygiad eu gyrfa yn y dyfodol.



# Manteision Prentisiaethau



**1.1** Mae Prentisiaethau'n cynnig manteision sylweddol i gymdeithas ac i'r economi yn ogystal â gwella rhagolygon am gyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion sy'n dysgu. Maent yn rhoi cyfle i bobl ddatblygu cymwyseddau sy'n gysylltiedig â swyddi, sgiliau technegol, sgiliau rhifedd a llythrennedd a hunan-barch. Maent yn chwarae rhan bwysig hefyd mewn helpu i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod tua 18 y cant o bobl rhwng 16 a 24 oed yn ddi-waith yng Nghymru. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn cael anhawster dod o hyd i waith oherwydd diffyg sgiliau.

**1.2** Prentisiaethau hefyd yw ein prif gyfrwng ar gyfer hyfforddiant 'ennill wrth ddysgu': Mae Prentisiaid yn cael eu cyflogi ac mae eu cyflogwr wedi ymrwymo i ddarparu mynediad iddynt at hyfforddiant a chymorth wrth weithio. Mae cyflogwyr yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant a chymorth priodol yn y gwaith ac am dalu'r prentis drwy gydol ei Brentisiaeth. Mae rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant yn gweithio gyda chyflogwyr i ddarparu hyfforddiant i brentisiaid o dan gontractau dysgu seiliedig ar waith sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru.

**1.3** Mae sgiliau a ddatblygir drwy Brentisiaethau'n cyfrannu at weithgarwch economaidd sydd â gwerth ychwanegol uwch. Maent yn dda ar gyfer twf a symudedd cymdeithasol. Mae tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod prentisiaid yn ennill mwy drwy gydol eu hoes a bod yr economi'n elwa'n fawr drwy Gynnyrch Domestig Gros uwch. Mewn astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol[2] cyfrifwyd bod Prentisiaethau'n rhoi elw cyfartalog o £18 am bob £1 y mae'r Llywodraeth yn ei gwario arnynt[3].

**1.4** Mae hyfforddi prentisiaid yn ffordd effeithiol o gwrdd â'r galw am sgiliau, yn awr ac yn y dyfodol. Mae cyflogwyr sy'n hyfforddi prentisiaid yn cael cyfle i bennu'r sgiliau y maent yn eu dysgu er mwyn paru'r rhai y maent eu hangen, a'u helpu i gynnwys a gwreiddio eu gwerthoedd sefydliadol yn hyfforddiant yr unigolyn. Gall hyn arwain at wella'r gallu i gadw staff[4].




[2] *Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Adult Apprenticeships (Chwefror 2012)*

[3] *Mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar y cyflog ychwanegol yr oedd oedolion a fu'n Brentisiaid wedi'i ennill wedyn (cynnydd cyfartalog o 18 y cant ar gyfer Prentisiaid Lefel 3 a chynnydd cyfartalog o 11 y cant ar gyfer Prentisiaid Lefel 2) dros y bywyd gwaith amcangyfrifedig ac amcangyfrif o werth y cynhyrchiant ychwanegol i gyflogwyr nad yw'n cael ei dalu ar ffurf cyflog.*

[4] *Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, BIS Research Paper Number 67, Employer Investment in Apprenticeships and Workplace Learning: the Fifth Net Benefits of Training to Employers Study (Mai 2012)*


# Ymateb i brinder sgiliau




**2.1** Rydym yn gwybod y bydd swyddi'r dyfodol yn galw am lefelau cymhwysedd uwch nag yn y gorffennol ac mae angen i'n rhaglen Brentisiaethau gwrdd â'r her honno a hybu twf economaidd. Rhwng 2004 a 2024, rhagwelir y bydd cyfran y rhai sydd mewn cyflogaeth sydd â chymhwyster ar lefelau 4-6 yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn dyblu bron o 22 y cant i 40 y cant **(Ffigur 1)**. Yn yr un modd, rhagwelir hefyd y bydd cyfran y rhai sydd mewn cyflogaeth sy'n dal cymhwyster ar lefel 7-8 yn dyblu bron, o 6 y cant i 11 y cant (er bod y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn wedi digwydd rhwng 2004 a 2014). Felly rhagwelir, erbyn 2024, y bydd mwy na hanner (51 y cant) y rhai sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru'n dal cymwysterau ar lefel 4 neu'n uwch.  Mae hyn yn cyferbynnu â chyfran o tua chwarter yn 2004 (28 y cant).


**2.2** Gellir gweld effaith i'r gwrthwyneb ymysg y rhai sydd heb gymwysterau. Er bod 13 y cant o'r rhai a oedd mewn cyflogaeth yng Nghymru heb gymwysterau yn 2004, rhagwelir y bydd hyn yn disgyn i ddim ond 2 y cant yn 2024. Yn yr un modd, rhagwelir y bydd cyfran y rhai sydd mewn cyflogaeth sy'n dal cymhwyster ar lefel 1 yn gostwng o 18 y cant i 9 y cant. Rhagamcanir gostyngiad bach yn y gyfran mewn cyflogaeth sydd wedi cymhwyso i lefel 2, er nad oes llawer iawn o newid yng nghyfran y rhai sydd wedi cymhwyso i lefel 3.

## Ffigur 1: Amcanestyniadau cyflogaeth ar sail lefel cymhwyster 2004-24




*Ffynhonnell: Working Futures 2014-2024*

## Ffigur 2: Amcanestyniadau o newid mewn cyflogaeth ar sail lefelau wedi'u datgyfuno 2004-2024




*Ffynhonnell: Working Futures 2014-2024*

**2.3** Drwy edrych ar lefelau cymhwyster penodol **(Ffigur 2)**, gwelir mai FfCChC 6 yw'r sbardun mwyaf i'r twf a ragwelir yn lefelau FfCCh 4-6 rhwng 2014 a 2024. Disgwylir y bydd cynnydd bach yn lefel FfCCh 5, ond cynnydd ychydig yn fwy ar gyfer lefel FfCCh 4. Rhagwelir y bydd cynnydd bach hefyd yn lefelau FfCCh 7 ac 8 rhwng 2014 a 2024.

**2.4** Er mwyn codi'r lefel sgiliau gyfartalog, mae angen darpariaeth fwy hyblyg ar gyfer Prentisiaethau, un sy'n ddigon hyblyg i fod yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u hamgylchiadau unigol, gan ddarparu hefyd ar gyfer y cyfyngiadau o ran amser a busnes a geir mewn nifer mawr o fusnesau bach a chanolig.

# Y ffordd o ddarparu Prentisiaethau yng Nghymru




**3.1** Mae dysgu drwy brentisiaeth yn cael ei ddiffinio drwy 'fframweithiau' sy'n pennu'r cymwysterau a hyfforddiant y mae'n rhaid eu cael er mwyn ennill tystysgrif Brentisiaeth. Yn 2014/15[5] roedd 19,500 o bobl wedi dechrau yn y rhaglen a mwy na 48,000 o brentisiaid yn derbyn hyfforddiant. Mae mwy na 120 o fframweithiau Prentisiaeth (rhai ohonynt ar nifer o lefelau) sy'n cael eu cyllido gan y llywodraeth ac yn cwmpasu amrywiaeth fawr o sgiliau, crefftau a meysydd galwedigaethol ar sail sector.

**3.2** Ar hyn o bryd, rhaid i bob fframwaith gynnwys cymwysterau cymhwysedd a gwybodaeth dechnegol, ac o leiaf ddau gymhwyster Sgiliau Hanfodol (neu gymwysterau dirprwyol cydnabyddedig). Mae prentisiaethau'n gweithredu ar lefel Prentisiaeth Sylfaen (lefel 2), Prentisiaeth (lefel 3), a Phrentisiaeth Uwch (lefel 4 ac yn uwch). Fodd bynnag, bydd y system yn aros yn ddigon hyblyg i fabwysiadu arferion da o systemau Prentisiaethau eraill.

**3.3** Ar hyn o bryd, mae mwyafrif y Prentisiaethau'n cael eu darparu drwy Brentisiaethau Sylfaen ar lefel mynediad (Ffigurau 4-6). Mae mwyafrif y prentisiaid yn dilyn Prentisiaethau Sylfaen ar lefel 2 (45 y cant); mae 39 y cant yn dilyn Prentisiaethau lefel 3; ac mae 16 y cant yn dilyn Prentisiaethau Uwch **(Ffigur 3).**


[5] *Further Education, Work-based Learning and Community Learning in Wales, 2014/15, Statistics for Wales, First Release: (Mawrth 2016)*

## Ffigur 3: Canran y prentisiaid ar sail lefel y rhaglen, 2014/15




*Ffynhonnell: StatsWales*

## Ffigur 4: Niferoedd y prentisiaid ar sail grwpiau sector a lefel rhaglen, 2014/15




*Ffynhonnell: StatsWales*

**3.4** Mae mwyafrif y Prentisiaethau'n cael eu darparu ym meysydd rheoli a gweinyddu busnes ac yn y sector iechyd a gofal cyhoeddus **(Ffigur 4).**

**3.5** Cyflwynwyd Prentisiaethau Uwch yn gyntaf yn 2011 ac mae nifer y cofrestriadau wedi cynyddu'n gyflym ers hynny. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu darparu yn y sectorau gofal cymdeithasol a rheoli, er bod rhywfaint o dwf mewn galwedigaethau technegol yr hoffem ei weld yn ymestyn.

# Ein Blaenoriaethau Cyflawni ar gyfer Prentisiaethau



**4.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu o leiaf 100,000 o Brentisiaethau o ansawdd uchel yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Bydd y rhain ar gael i bobl o bob oed, gyda chyfle i sicrhau cyflogaeth a hunangyflogaeth barhaus. Bydd cyflogeion yn gallu cael gafael ar hyfforddiant o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o sectorau a fydd yn hybu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth. Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol i angen tymor hir a gofynion Economi Cymru, mae'r themâu arweiniol a ganlyn wedi cael eu nodi.

## Ymateb i Brinder Sgiliau

**4.2** Nid oes digon o Brentisiaethau mewn sectorau lle mae prinder sgiliau difrifol. Yn 2014/15, dim ond 3 y cant o brentisiaid a oedd yn y sector TG a thelathrebu, a dim ond 8 y cant yn y sector peirianneg. Bydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol[6] yn allweddol o ran deall yr anghenion sgiliau a'r galw ledled Cymru. Bydd yn ofynnol iddynt weithio gyda chyflogwyr i gael dealltwriaeth well o'r prinder sgiliau a materion sgiliau (yn enwedig cyflogwyr sy'n talu'r Ardoll Brentisiaethau), a bydd gofyn iddynt flaenoriaethu'r galw fel y gellir ei ddiwallu o fewn y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer Prentisiaethau.

[6] *Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru: www.rlp.org.uk/?lang=cy Partneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi De-ddwyrain Cymru: www.lskip.wales/ ; Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: www.northwaleseab.co.uk/?lang=cy*

## Cyflwyno Rhaglen Brentisiaethau i Bob Oed

**4.3** Ym mis Awst 2016 cyflwynom y rhaglen Brentisiaethau i bob oed lle mae pobl o bob oed yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy Brentisiaethau, yn enwedig y rhai sy'n ceisio ymuno neu ailymuno â'r farchnad lafur.

**4.4** Mae gweithwyr hŷn yn iachach ac yn fwy gweithgar na'r cenedlaethau a fu, ac mae hynny'n golygu y bydd llawer ohonynt yn gweithio'n hirach na chenhedlaeth yn ôl. Rydym yn cydnabod y rhwystrau penodol sy'n wynebu llawer o bobl dros 50 oed sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur, a'r rôl sydd gan bobl dros 50 oed o ran mentora gweithwyr iau a throsglwyddo eu sgiliau a'u gwybodaeth, a dyna pam rydym wedi symud at raglen pob oedran ac wedi cychwyn y gwaith o ddatblygu rhaglen meistr grefftwr newydd – a drafodir yn adran 4.12

**4.5** Dylai Prentisiaethau ddarparu llwybrau at yrfaoedd, gan wella cyfleoedd bywyd i ragor o bobl o bob cefndir. Er hynny, mae gormod o bobl ifanc yn ei chael yn anodd cael troedle yn y farchnad lafur. Drwy roi blaenoriaeth i rai sy'n dechrau ar Brentisiaeth yn 16-19 oed, bydd y cyfleoedd i ennill cyflogau uwch a chamu ymlaen mewn gyrfa yn cael eu hestyn yn bellach na'r bobl ifanc hynny sy'n mynd am y dewis academaidd yn 16 oed. Mae ymchwil a gyflawnwyd gan Ymddiriedolaeth Sutton a'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn cefnogi'r dull hwn o weithredu. Bydd darparu rhagor o gyfleoedd drwy Brentisiaethau i bobl ifanc 16-19 oed yn hybu symudedd cymdeithasol, yn gwella cyfleoedd bywyd ac yn helpu i barhau i ymgysylltu â'r rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET).

**4.6** Cymerir camau i gynyddu nifer y Prentisiaethau mewn galwedigaethau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, a Mathemateg (STEM); i wella ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael i rai 16-19 oed i'w helpu i ddewis eu llwybr ôl-16; i wella dilyniant o'r rhaglen Cyflogadwyedd Pob Oedran i Brentisiaethau; ac i ddatblygu cyfleoedd i symud ymlaen at Brentisiaethau uwch/gradd ar gyfer y rhai sy'n 19 oed a throsodd.

## Swyddi a thwf – datblygu sgiliau lefel uwch

**4.7** Ledled y Deyrnas Unedig disgwylir y bydd 3.6 miliwn o swyddi ychwanegol mewn galwedigaethau sgiliau canolig erbyn 2022[7]. Dim ond manteision cyfyngedig y mae Prentisiaethau lefel mynediad yn eu cynnig i'r farchnad lafur ac mae'n debygol y bydd twf cynyddol yn nifer y swyddi sy'n galw am gymwysterau a sgiliau lefel uwch yn economi'r dyfodol[8].



[7] *Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, Winning the Global Race? Jobs, Skills and the Importance of Vocational Education (2014)*

[8] *Comisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau, Working Futures projections for employment change by occupation, 2010–2020*

**4.8** Mae'r cynnwys sgiliau mewn Prentisiaeth wedi'i osod ar lefel a fydd yn cwrdd ag anghenion sgiliau economi Cymru yn y dyfodol. Fel arfer, dylai Prentisiaethau ar lefel mynediad (Prentisiaethau Sylfaen) gael eu cyflawni fel cam tuag at gwblhau Prentisiaeth; dylid symud ymlaen yn awtomatig at Brentisiaeth. Yn y dyfodol, canolbwyntir ar ddarparu Prentisiaethau ar lefel 3 ac yn uwch, lle gellir cael mwy o fanteision fel arfer, gan leihau nifer y Prentisiaethau lefel mynediad yn raddol mewn sectorau na roddwyd blaenoriaeth iddynt[9].


**4.9** Rydym yn parhau i gydnabod gwerth sgiliau lefel mynediad fel llwyfan defnyddiol i ymgyrraedd yn uwch gan dderbyn y gall fod yn lefel briodol ar gyfer rhai galwedigaethau, er enghraifft, y rhai ym maes gofal cymdeithasol a rhai sectorau yn y diwydiant adeiladu. Mae'r economi angen pobl wedi eu hyfforddi yn y sectorau hyn yn ogystal â'r rhai mewn galwedigaethau technegol a allai fod angen lefel sgiliau uwch. Rydym hefyd yn archwilio a oes ymyriadau mwy priodol i gefnogi sgiliau ar lefel mynediad yn fwy cyffredinol y tu allan i'r brand Prentisiaethau.

**4.10** Rydym yn bwriadu cefnogi twf mewn Prentisiaethau ar lefelau uwch. Byddwn yn adolygu'r cynnwys hwn i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu'r prinder sgiliau sy'n datblygu mewn galwedigaethau technegol a hyfedr a fydd yn hyrwyddo cynhyrchiant, fel peirianneg a TG. Canolbwyntir yn gyntaf ar y sectorau a nodwyd yn flaenoriaethau gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Ers cyflwyno prentisiaethau lefel uwch yn 2011, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol ynddynt er mwyn eu datblygu a'u hymestyn. Yn 2014/15 roedd 16 y cant o brentisiaid dan hyfforddiant yn dilyn Prentisiaeth Uwch. Er cymaint y llwyddiant hwn, mae angen ymestyn eu cwmpas i gynnwys galwedigaethau ychwanegol, er enghraifft, yn y diwydiant adeiladu a'r sectorau STEM. Eleni rydym wedi blaenoriaethu'r adolygiad o fframweithiau Prentisiaethau Uwch sy'n bodoli'n barod i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn atyniadol i gyflogwyr – er enghraifft, rydym wedi ychwanegu cymwysterau Cenedlaethol Uwch at fframweithiau yn y sector peirianneg y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Bydd sicrhau bod y Prentisiaethau hyn yn cynnwys cymwysterau y mae cyflogwyr yn eu cydnabod ac yn eu gwerthfawrogi yn annog diddordeb yn y sector.

**4.11** Bydd angen i ddarparwyr a phrifysgolion weithio gyda'i gilydd fwyfwy i ddarparu cyrsiau hyblyg; mae'n bosibl y bydd gwahanol sectorau, cyflogwyr a galwedigaethau angen gwahanol ddulliau astudio – er enghraifft, dysgu ar-lein neu ddysgu rhithwir; rhyddhau mewn bloc; rhyddhau am ddiwrnod; dysgu cyfunol (cyfuno'r ystafell ddosbarth a dulliau digidol); a charfannau dysgwyr sy'n cynnwys prentisiaid yn ogystal â mathau eraill o fyfyrwyr. Yn ogystal, bydd gwell cydweithio rhwng prifysgolion a darparwyr sy'n cynnig prentisiaethau ar lefelau gwahanol ar gyfer yr un ardal alwedigaeth yn galluogi cyflogwyr i gael mynediad at fframwaith dilyniant cynhwysfawr ar gyfer eu staff.



[9] *Y sectorau/meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth ar hyn o bryd yw: Gweinyddu Busnes, Gwasanaethau Cwsmeriaid, Manwerthu a Thrin Gwallt a Harddwch.*



**4.12** Mae Colegau Cymru, drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn ymchwilio i fanteision sefydlu safon Meistr Grefftwr ar gyfer prentisiaid sy'n cyrraedd lefel uchel o arbenigedd technegol. Mae safonau Meistr Grefftwr wedi'u cydnabod eisoes mewn nifer o wledydd yn Ewrop, yn amrywio o gymwysterau am gwblhau Prentisiaeth yn llwyddiannus i rai sy'n cydnabod profiad Ôl-brentisiaeth o 10 mlynedd ar y mwyaf. Ar ôl hyn ceir cyfnodau hyfforddi o wahanol hyd i'r Meistr Grefftwr cyn y gall sefyll arholiadau. Mae hyn yn amrywio o 0 i 3 oed ac rydym yn gobeithio y bydd safon y Meistr Grefftwr yn cael ei chroesawu gan y diwydiant ar draws Cymru, ac y bydd yn ei thro yn rhoi hwb i sgiliau ein prentisiaid.

**4.13** Rydym hefyd yn bwriadu datblygu llwybrau gwahanol at sgiliau lefel uwch a thrwyddynt gyda Phrentisiaethau sy'n cynnwys cymwysterau lefel gradd. Byddai prentisiaid sy'n dilyn cymhwyster Gradd neu Radd Meistr yn gallu rhannu eu hamser rhwng astudio mewn prifysgol a'r gweithle gan y byddent yn cael eu cyflogi drwy gydol cyfnod y Brentisiaeth. Ein gobaith yw profi amrywiaeth o Brentisiaethau newydd yng Nghymru (sy'n cynnwys cymwysterau lefel gradd) wedi eu datblygu ar y cyd â chyflogwyr, cyrff sector, Cynghorau Sgiliau Sector, a Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ledled Cymru.

**4.14** Mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol wrth gynnal swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg, gwasanaethau tân, rheoli gwastraff, gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd; ond yn draddodiadol nid ydynt yn recriwtio prentisiaid i ddiwallu eu hanghenion gweithlu. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus ar eu gwaith cynllunio gweithlu, er mwyn annog rhagor i gymryd prentisiaid, yn benodol o fewn Awdurdodau Lleol, y GIG a'r gwasanaethau 'golau glas'.

## Ansawdd a Meincnodi

**4.15** Mae cyflogwyr[10] a phrentisiaid yn gweld gwerth mawr yn y rhaglen ac mae ein cyfraddau llwyddiant o ran y fframwaith yn gyson uwch na 80 y cant[11]. Canfu ein harolwg diwethaf o ddysgwyr fod mwy na 90 y cant o brentisiaid yn credu bod eu profiad cyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn'[12]. Er hynny, rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud rhagor.

**4.16** Mae darparu prentisiaethau yn faes sy'n cael ei arolygu gan Estyn ac sy'n agored i fonitro parhaus gan Lywodraeth Cymru. Er bod canlyniadau cyffredinol y rhaglen yn dda, rydym yn ymwybodol fod angen cefnogi darparwyr i wella rhai agweddau ar ddarparu, gan gynnwys addysgu llythrennedd a rhifedd; ansawdd y marcio a'r adborth; a gwella sgiliau hyfforddwyr ac aseswyr i gefnogi a herio pob dysgwr i gyflawni eu potensial.

**4.17** Er mwyn helpu i feithrin gallu yn y sector dysgu yn y gwaith, mae Pennaeth Ansawdd ymroddedig wedi cael ei benodi gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (y corff sy'n cynrychioli darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru). Mae ei rôl yn cynnwys cydlynu datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y sector, rhannu arfer da, a datblygu gweledigaeth glir o sut beth yw dysgu rhagorol yn y gwaith. Daw cyfleoedd pellach wrth gofrestru ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg o fis Ebrill 2017 ymlaen, a fydd yn darparu, am y tro cyntaf, wybodaeth gynhwysfawr am y gweithlu, lefelau cymwysterau, ac anghenion datblygu.

**4.18** Dylai ein mesurau llwyddiant gael eu cysylltu â phwrpas craidd Prentisiaethau, sef cael lle i bobl mewn cyflogaeth ystyrlon. Argymhelliad Ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad i Brentisiaethau oedd ein bod yn cyhoeddi 'nifer y prentisiaid sy'n mynd ymlaen i gael gwaith ar ôl i'w prentisiaeth ddod i ben, yn ôl y sector y maent yn mynd iddo.'[13] Wrth fwrw ymlaen â hyn, mae gennym gytundeb mewn egwyddor gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gymryd rhan yn ei rhaglenni cysylltu data yn Lloegr. Enw'r rhaglen yw'r Astudiaeth Canlyniadau Addysg Hydredol (LEOS), ac mae'n paru cofnodion

[10] *Mewn gwerthusiad annibynnol, cafwyd bod mwyafrif y cyflogwyr yn fodlon ar eu profiad o Brentisiaethau a'u bod yn dweud ei bod yn debygol y byddant yn cynnig Prentisiaethau yn y dyfodol:* *www.gov.wales/statistics-and-research/evaluation-work-based-learning/?lang=cy*

[11] *Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned,* *www.gov.wales/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy*

[12] *Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2015, www.gov.wales/docs/statistics/2015/150421-post-16-learner-voice-wales-survey-2015-en.pdf*

[13] *Ymchwiliad i Brentisiaethau yng Nghymru, y Pwyllgor Menter a Busnes (2012):* *www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3281*

dysgwyr â data yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyflogaeth, enillion a budd-daliadau, gan roi darlun mwy cynhwysfawr o gyrchfannau dysgwyr nag a fu'n bosibl o'r blaen. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gytuno ar fanylion ein cyfranogiad, ac rydym yn bwriadu cynnal cynllun peilot yn ystod gwanwyn 2017, a fydd yn arwain at raglen barhaus o gysylltu data i'n galluogi i fonitro cynnydd a chyrchfannau dysgwyr.

**4.19** Mae Cystadlaethau Sgiliau yn cynnig cyfle i brentisiaid herio, meincnodi a chodi eu sgiliau drwy gymryd rhan mewn cystadlaethau mewn nifer o sectorau. Mae'r cystadlaethau hyn yn rhoi cyfle i brentisiaid ddatblygu a dangos eu sgiliau ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan wella eu hunanhyder a'u hunan-barch. Maent yn meithrin brwdfrydedd ac yn codi dyheadau pobl ifanc, ac yn eu helpu i baratoi'n feddyliol ac yn dechnegol ar gyfer eu dewis gyrfa. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod Prentisiaethau'n cael lle amlwg yng ngwaith Cystadlaethau Sgiliau ledled Cymru.

**4.20** Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd rydym yn cofnodi a monitro dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel y gellir cymharu'n well rhwng y cyfrwng dysgu a'r sgiliau iaith sydd ar gael i'w defnyddio yn y gweithle.

**4.21** Fel rhan o'n gwaith gyda'r Gynghrair Ewropeaidd ar gyfer Prentisiaethau, byddwn yn rhannu arfer gorau ac yn hyrwyddo manteision Prentisiaethau ar lefel Ewropeaidd, gan hefyd ein galluogi i feincnodi ein perfformiad ar lefel ryngwladol.

## Ia Mynediad, Cydraddoldeb a Chyfle Cyfartal

**4.22** Mae angen iddi fod mor syml â phosibl i unigolion a chyflogwyr gael mynediad at Brentisiaethau. Mae angen i gyflogwyr wybod pa ddarpariaeth sydd ar gael iddynt, pryd y gellir recriwtio pobl ar ei chyfer a pha mor hir fydd yr hyfforddiant. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn symleiddio ac yn gwella ein *Gwasanaeth Paru Prentisiaeth*[14] ar-lein er mwyn rhoi gwell cymorth i gyflogwyr a darparwyr sy'n hysbysebu cyfleoedd i Brentisiaid.

**4.23** Byddwn yn parhau â'n strategaeth marchnata a chyfathrebu ar gyfer Prentisiaethau, gan ddenu prentisiaid a chyflogwyr newydd drwy ddathlu cyflawniadau a manteision Prentisiaethau ar raddfa eang.  Byddwn yn hybu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y mae'r rhaglen yn eu cynnig i gyflogwyr o bob maint. Mae hyn yn cynnwys cyflogwyr sy'n debygol o greu rhagor o Brentisiaethau o ganlyniad i gyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau a busnesau bach sy'n hanfodol i greu twf, sy'n fwy tebygol o gyflogi prentisiaid iau.

[14] www.gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/Apprenticeships/matchingservice/?lang=cy

**4.24** Rhai o'r mentrau yw:

- Dathlu cyflawniadau unigolion a chyflogwyr drwy Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau ym mis Mawrth bob blwyddyn; rhannu balchder a llwyddiant prentisiaid gan ddangos y gwahaniaeth y gall Prentisiaethau ei wneud ar gyfer busnesau ac unigolion;
- Gwobrau Prentisiaeth Cenedlaethol sy'n dathlu llwyddiant prentisiaid a busnesau penodol o bob maint ar lefel ranbarthol a chenedlaethol;
- Trefnu i wybodaeth fod ar gael i gyflogwyr am Brentisiaethau Uwch a'r manteision y maent yn eu cynnig ynghyd â chanllawiau clir ar y math o gyflogeion a fydd yn elwa fwyaf ohonynt, ac unrhyw gyllid/cymorth sydd ar gael;
- Sicrhau cyfraniad parhaus a chynyddol gan gyrff proffesiynol at hyrwyddo Prentisiaethau Uwch a'r ffordd y mae'r rhain yn ategu'r llwybrau sydd ar gael ar gyfer ymgymhwyso proffesiynol;
- Er mwyn annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn dysgu galwedigaethol mewn ysgolion, rydym yn treialu'r fenter 'Rhowch gynnig arni'. Mae digwyddiadau 'Rhowch gynnig arni' mewn ysgolion a cholegau yn rhoi cyfle i bobl ifanc roi cynnig ar sgiliau newydd drwy amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol. Bydd hyn yn helpu i ddangos y llwybrau galwedigaethol sydd ar gael, gan gynnwys Prentisiaethau. Rydym yn annog darparwyr sy'n cynnig hyfforddiant i Brentisiaid i drefnu digwyddiadau 'Rhowch gynnig arni' a chymryd rhan ynddynt. Er mai cynllun peilot yw hwn ar hyn o bryd, rydym eisoes yn gweld galw mawr gan ysgolion a cholegau yn rhanbarth De Cymru. Byddwn yn ymestyn y cynllun peilot i Ganolbarth a Gogledd Cymru yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

**4.25** Mae angen gweld cydraddoldeb mewn perthynas â Phrentisiaethau mewn cyd-destun cyflogaeth ehangach i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â materion ymgysylltu a chymorth ar gyfer grwpiau dan anfantais. Mae cael gweithlu amrywiol gyda phobl o wahanol gefndiroedd hiliol, addysgol a chymdeithasol ac ystod oedran eang yn agor cyfoeth o bosibiliadau ac yn helpu i annog creadigrwydd a meithrin arloesi. Mae ein gweithlu a'n patrymau gwaith yn newid. Mae ein poblogaeth sy'n gweithio yn mynd yn hŷn, ac mae nifer cynyddol o fenywod a phobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac ethnig yn ymuno â'r gweithlu. Mae gwerthfawrogi amrywiaeth yn dod yn fwyfwy pwysig i fusnesau ac i Brentisiaethau yn sgil hynny.

**4.26** Mae cymorth ar gael i brentisiaid hefyd drwy drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymorth Dysgu Ychwanegol. Mae'r rhain ar gael i ddysgwyr sydd ag anhawster neu anabledd dysgu ac sydd angen cymorth ychwanegol i lwyddo ar y rhaglen.





**4.27** Er mwyn rhoi sylw i faterion cydraddoldeb ar y rhaglen, rydym wedi penodi Hyrwyddwr Cydraddoldeb i weithio gyda'n darparwyr a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y gymuned – i ddatblygu camau gweithredu i helpu pobl dan anfantais i oresgyn y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws ar ein rhaglen Prentisiaethau. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio ar amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi grwpiau sydd dan anfantais i gyfleoedd am Brentisiaethau. Ymysg y rhain mae:

- Datblygu pecyn cymorth a hyfforddiant pwrpasol ar Amrywiaeth a Chydraddoldeb ar gyfer ein rhwydwaith dysgu seiliedig ar waith mewn ymateb i adolygiad a gynhaliwyd gan yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- Gwaith hyrwyddo, astudiaethau achos gan ddefnyddio sianelau amrywiol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol;
- Ymagwedd llwyth gwaith newydd gan weithio gyda Remploy i fynd ati'n rhagweithiol i recriwtio eu cleientiaid i Brentisiaethau, a
- Defnyddio ein menter 'Rhowch Gynnig Arni' mewn ysgolion i alluogi pobl ifanc i roi cynnig ar weithgareddau a dileu'r stereoteipiau rhywedd sy'n bodoli ar hyn o bryd ynghylch y sectorau.

**4.28** Mae angen i bobl allu cael cyfleoedd dysgu a hyfforddi yn Gymraeg neu Saesneg ac, yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n cymryd Prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*[15], y byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn aml mae Prentisiaethau'n pontio rhwng addysg statudol a'r gweithle mewn cyfnod allweddol pryd y mae angen cynnal sgiliau iaith. Yn achos dysgwyr hŷn sy'n dychwelyd at ddysgu neu'n datblygu eu sgiliau ymhellach, maent yn cynnig cyfle i adfer eu hyder yn eu sgiliau iaith.

[15] www.gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy

**4.29** Dros amser bydd mwy o sefydliadau'n gorfod glynu wrth y Safonau Iaith Gymraeg ac, o ganlyniad, bydd mwy o alw am weithlu lle mae unigolion yn gallu gweithio'n ddwyieithog. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y sectorau gweinyddu cyhoeddus ac iechyd ac yn ychwanegu at y galw presennol am sgiliau iaith Gymraeg yn sectorau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae Prentisiaethau'n gallu helpu i ddatblygu gweithlu i ateb y galw hwn drwy ddarparu dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan helpu unigolion i gynnal a datblygu'r sgiliau iaith y maent wedi'u dysgu yn ystod addysg statudol i'w defnyddio yn y gweithle..

**4.30** Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n eu dilyn, rydym wedi cyflwyno targedau ar gyfer darparu Prentisiaethau dwyieithog ar gyfer galwedigaethau ym meysydd gofal plant, adeiladu ac amaethyddiaeth lle gall y Gymraeg fod yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau effeithiol. Bydd perfformiad yn cael ei fonitro'n fisol a bydd darparwyr yn cael eu herio lle nad yw targedau wedi'u cyrraedd. Yn ogystal â hyn, byddwn yn ystyried sut i osod targedau ymestynnol fesul cam mewn meysydd eraill er mwyn gwireddu ein huchelgais o greu Cymru ddwyieithog. Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd rydym yn cofnodi a monitro dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel y gellir cymharu'n well rhwng y cyfrwng dysgu a'r sgiliau iaith sydd ar gael i'w defnyddio yn y gweithle.

## Datblygu llwybrau sgiliau cynaliadwy – integreiddio Prentisiaethau â'r system addysgol ac economaidd ehangach

**4.31** Mae system addysg y Deyrnas Unedig wedi'i chyfeirio at ddarparu cymwysterau yn hytrach na chyflogadwyedd. Yn aml mae dysgu galwedigaethol yn cael ei weld yn ddewis 'ail orau' oherwydd y strwythurau sefydliadol sydd wedi ffurfio system addysg a marchnad lafur y Deyrnas Unedig. Ceir llwybrau academaidd cyfarwydd a diffiniedig sy'n arwain pobl ifanc o 14 oed drwy gyrsiau TGAU a Safon Uwch ac ymlaen i brifysgol. O ran y bobl hynny nad ydynt yn bwriadu mynd i brifysgol, mae'r llwybr yn llai clir. Mae'r wybodaeth am fanteision mynd i goleg neu ddechrau Prentisiaeth yn gymharol wael. I lawer, mae'n haws ac yn fwy diogel dewis y llwybr i'r brifysgol.

**4.32** Rhaid i wybodaeth glir fod ar gael yn rhwydd i brentisiaid posibl, rhieni a chyflogwyr am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, yn enwedig pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, sydd ddim ond yn cael gwybodaeth am ddewisiadau chweched dosbarth ac addysg uwch. Er mwyn hyrwyddo hyn, byddwn yn symleiddio ac yn gwella'r rhyngwyneb rhwng cyflogwyr a dysgwyr, gan ei gwneud yn haws i gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant farchnata Prentisiaethau eu hunain. .

**4.33** Mae angen i gyfleoedd ar gyfer Prentisiaethau fod mor syml â phosibl i unigolion a chyflogwyr gael prentisiaethau. Mae angen i gyflogwyr wybod pa ddarpariaeth sydd ar gael iddynt, pryd y gellir recriwtio pobl ar ei chyfer a pha mor hir fydd yr hyfforddiant.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn symleiddio ac yn gwella ein Gwasanaeth Paru Prentisiaeth ar-lein er mwyn rhoi gwell cymorth i gyflogwyr a darparwyr sy'n cynnig lleoedd.

**4.34** Byddwn hefyd yn creu cydweithredu cryfach rhwng addysg academaidd ac addysg alwedigaethol ac edrych ar y ffordd mae'r systemau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cynnig cynhwysfawr cyfunol ar gyfer Prentisiaethau. Bydd llwyddiannau academaidd a galwedigaethol o fewn Prentisiaethau'n arwain at y lefelau uchaf o gyrhaeddiad addysgol. Mae angen i Ysgolion, Colegau, Prifysgolion a chyflogwyr chwarae rhan fwy agored ym mecanwaith darparu Prentisiaethau.

**4.35** Mae Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) yn bwriadu cyflwyno pwyntiau tariff UCAS ar gyfer Prentisiaethau ym mis Mai 2017. Mae'n ystyried dyrannu pwyntiau tariff ar gyfer Prentisiaethau lefel 3. Mae'n bosibl y bydd y datblygiad hwn yn cynnig llwybr i addysg uwch amser llawn i brentisiaid ar adeg o'u dewis. Gallai hefyd gryfhau'r llwybr i mewn i Brentisiaethau, gan gynnwys y rhai sydd â chymhwyster gradd.

**4.36** Mae adolygiad Diamond yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu cydweithredu cryfach a mwy effeithiol ar draws y sector addysg, a fydd yn helpu i ehangu sgiliau lefel uwch, gan gynnwys yr arlwy o Brentisiaethau Uwch. Bydd yn cefnogi cyflwyno darpariaeth Prentisiaethau dan arweiniad cyflogaeth, a bydd mynediad at y system yn cael ei seilio ar gysoni â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar angen economaidd. Bydd cynigion i gyllido'r gwaith o gyflwyno'r dull hwn yn cael eu dwyn ymlaen yn ystod 2017.

**4.37** Yn yr un modd, mae angen i Brentisiaethau gael eu hintegreiddio'n well gyda chyrsiau addysg bellach, ac er mwyn ymdrin â hyn, byddwn yn gweithio i addasu fframweithiau Prentisiaethau a rhaglenni dysgu addysg bellach i greu system o lwybrau integredig.


## Sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu fframweithiau

**4.38** Er mwyn ymateb yn well i anghenion cyflogwyr, sy'n aml yn newid yn gyflym, byddwn yn adolygu systemau i ddatblygu'r cynnwys dysgu mewn fframweithiau, i sicrhau bod Prentisiaethau'n cwrdd ag anghenion cyflogwyr ac yn ymateb i newidiadau mewn diwydiant. Mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys wrth ddylunio, darparu ac asesu Prentisiaethau er mwyn cael rhaglen ymatebol sy'n weladwy ac yn hygyrch. Wrth ddylunio prentisiaethau, rhoddir ystyriaeth i argymhellion gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwybodaeth am y farchnad lafur ac adolygiadau sector a gynhelir gan Cymwysterau Cymru. Bydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn ehangu ei gylch gwaith i ystyried datblygiadau ym maes Prentisiaethau, a bydd hefyd yn cynghori ar ddatblygiadau mewn fframweithiau Prentisiaeth gyda'r nod o ddarparu 30 ar y mwyaf o fframweithiau Prentisiaeth uchel eu perfformiad i yrru economi Cymru yn ei blaen.

**4.39** Mae cymwysterau prentisiaeth wedi'u hategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC), sy'n cael eu datblygu drwy ymgynghori â chyflogwyr drwy gyrff cynrychiadol y sectorau (yn cynnwys Cynghorau Sgiliau Sector) sy'n gweithredu ledled y Deyrnas Unedig. Mae SGC yn darparu manyleb fanwl o'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i gyflawni swydd. Maent yn rhan annatod o ansawdd Prentisiaethau yng Nghymru ac yn cael eu parchu gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant.

**4.40** Prif fantais SGC yw eu bod wedi'u llunio gan gyflogwyr er mwyn darparu glasbrint ar gyfer rôl swydd. Mae'n fwriad i SGC fod yn ddigon hyblyg i gwrdd ag anghenion busnesau o bob maint mewn amrywiaeth o leoliadau. Yn ôl gofynion penodol yr alwedigaeth, gellir defnyddio SGC un ai i ddarparu trosolwg lefel uchel ar y cymhwysedd cyffredinol sydd ei angen mewn swydd, neu i roi golwg mwy manwl i gyflogwyr sydd am nodi'r meysydd cymhwysedd galwedigaethol sy'n hanfodol i gyflawni swydd benodol. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud y defnydd o SGC yn ofynnol bellach yn y system cymwysterau galwedigaethol yn Lloegr, er bod cyflogwyr yn Lloegr yn cael parhau i ddefnyddio SGC os ydynt yn dymuno. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gadw NOS fel sail gyffredin a rennir i sicrhau cydraddoldeb ar gyfer systemau Prentisiaethau ar draws y Deyrnas Unedig.

**4.41** Ar hyn o bryd, mae Cymru'n parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal cymwysterau fel elfennau allweddol o fframweithiau Prentisiaethau. Mae dysgwyr yn gallu 'cludo' cymwysterau proffesiynol neu reoledig o fewn ac ar draws sefydliadau, sectorau, rhanbarthau a gwledydd ac maent yn cynnig meincnod o ran ansawdd i gyflogwyr wrth benderfynu a yw prentis yn gymwys. Ar gyfer prentisiaid, maent yn darparu tystiolaeth o gymhwysedd a gwybodaeth a fydd yn eu helpu i wireddu eu dyheadau gyrfa.





# Yr Ardoll Brentisiaethau



**5.1** Mae'r Ardoll Brentisiaethau yn dreth ar gyflogaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sydd i ddod i rym yn Ebrill 2017. Bydd yn cael ei chodi ar draws y Deyrnas Unedig. Mae disgwyl i'r Ardoll greu galw ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

**5.2** Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n flynyddol â chyflogwyr, yn uniongyrchol a thrwy Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r galw y bydd yr ardoll yn ei greu a sut y gellir cwrdd â'r galw hwn. Yn ystod 2017 byddwn yn gofyn i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ymgynghori'n eang a chynhwysfawr â chyflogwyr sy'n talu'r ardoll i sicrhau eu bod wedi'u cynrychioli'n llawn yn yr asesiadau o sgiliau y maent yn eu cynhyrchu bob blwyddyn, gan felly ddylanwadu ar y ddarpariaeth a gynigir.

**5.3** Gyda fframweithiau Prentisiaethau ar gael ar draws amrywiaeth eang o feysydd gwaith, rydym yn annog cyflogwyr i gyflwyno eu hunain a recriwtio drwy ein rhaglen, yn enwedig mewn meysydd technegol a phroffesiynol. Rydym yn cydnabod bod angen cryfhau prosesau ymgysylltu â chyflogwyr fel bod ganddynt well mynediad at wybodaeth am Brentisiaethau yng Nghymru. Bydd pecyn gwybodaeth i gyflogwyr am Brentisiaethau yng Nghymru a'r ardoll yn cael ei gynhyrchu ynghyd ag offer ategol ar-lein. Bydd swyddogaeth newydd sy'n wynebu'r cwsmer yn rhoi cyngor manwl i gyflogwyr ar sut gallant gael mynediad at Brentisiaethau sy'n bodloni ein blaenoriaethau. Bu ymgysylltu sylweddol â chyflogwyr a chyrff cynrychiadol, fel y CBI. Hyd yma rydym wedi cael dros 200 o ymholiadau ynghylch yr ardoll, ac mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr, cyrff y sector undebau a phartneriaid cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn deall ein hymagwedd at brentisiaethau yng Nghymru. I gefnogi hyn, rydym yn gweithio'n strategol gyda chyrff allweddol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, fel awdurdodau lleol a chwmnïau angori yng Nghymru[16].

**5.2** Gellir llwytho i lawr y Pecyn Gwybodaeth am Brentisiaethau o www.businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/ardoll-prentisiaethau

[16] www.gov.wales/topics/businessandeconomy/how-we-support-businesses/anchor/?lang=cy

# Pontio a gweithredu

**6.1** Bydd datblygu'r system Brentisiaethau'n cael ei gyflawni drwy broses bontio raddol dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y Cynllun Gweithredu yn **Atodiad A**. Y bwriad yw y bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn i sicrhau bod y dull o weithredu'n parhau'n ymatebol ac yn gydnaws â'r amgylchedd economaidd wrth iddo newid.

**6.2** O gofio am y newidiadau yn y model Prentisiaethau, byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith i sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni ein hamcanion ac i bennu a fydd angen i ni gryfhau a mireinio polisi wrth i ni weithredu. Yn benodol, byddwn yn mesur effaith y diwygiadau mewn nifer o feysydd, yn cynnwys rhywedd, oedran ac ethnigrwydd prentisiaid. Rhai o'r dangosyddion allweddol fydd manteision i ddysgwyr a chyflogwyr, yn enwedig o ran cynhyrchiant; camu ymlaen i gyflogaeth ar ôl cwblhau prentisiaeth; a bodlonrwydd prentisiaid.

**63** Elfen ganolog yn ein dull gweithredu fu cyfrannu at gyflawni nodau datblygu cynaliadwy. Mae Prentisiaethau'n cael effaith arwyddocaol ar lesiant economaidd a chymdeithasol a bydd y camau i greu model Prentisiaethau mwy cynaliadwy yn gwella bywydau yn ogystal â dod â manteision uniongyrchol o ran addysg a gyrfa. Mae'r manteision ychwanegol hynny wedi'u disgrifio yn **Atodiad B.**



# Cyflawni newidiadau dros bum mlynedd

## Cysoni ein model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru

### Y Flwyddyn Gyntaf – 2016-17

Yn ystod y flwyddyn gyntaf byddwn yn cyflwyno nifer o fesurau i ganolbwyntio o'r newydd ar gyflawni'r rhaglen ac ar ei chyrhaeddiad.

| | Camau gweithredu – Beth rydym yn ei wneud? |
|---|---|
| **1** | Cyflwyno Rhaglen Brentisiaethau i Bob Oed. |
| **2** | Gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ymateb i brinder sgiliau allweddol yn eu rhanbarth drwy gyflwyno proses gynllunio fwy effeithiol. |
| **3** | Ystyried sut mae fframweithiau Prentisiaethau presennol yn cwrdd â galw cyflogwyr fesul sector ar hyn o bryd. |
| **4** | Bydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn ehangu ei gylch gwaith i fonitro camau gweithredu sy'n deillio o roi'r Cynllun Gweithredu Prentisiaethau ar waith. Bydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn cynghori ar ddatblygiadau mewn fframweithiau Prentisiaeth gyda'r nod o ddarparu 30 ar y mwyaf o fframweithiau Prentisiaeth uchel eu perfformiad i yrru economi Cymru yn ei blaen. |
| **5** | Gweithio gyda Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'r canlyniadau i'w adolygiadau o Gymwysterau Sector er mwyn sicrhau bod Prentisiaethau'n cwrdd ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru. |
| **6** | Adolygu trefniadau cyllido i sicrhau eu bod yn cefnogi arferion dysgu, addysgu ac asesu o ansawdd uchel ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru. |
| **7** | Ystyried dewisiadau o ran cyfyngu nifer y meysydd Prentisiaethau Sylfaen lefel mynediad nad ydynt yn flaenoriaeth mewn Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol, a bwrw ymlaen â datblygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb yn fwy effeithiol i'r economi sylfaenol. Mae'r sectorau a nodwyd gyntaf ar gyfer gostyngiad graddol yn cynnwys Gweinyddu Busnes, Gwasanaethau Cwsmeriaid, Manwerthu a Thrin Gwallt a Harddwch. |
| **8** | Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymgynghori'n eang â chyflogwyr sy'n talu'r Ardoll i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried yn yr asesiadau o sgiliau y maent yn eu cynhyrchu bob blwyddyn. |
| **9** | Adolygu amlygrwydd y cyfleoedd i ddilyn Prentisiaeth i sicrhau bod systemau'n cyflwyno gwybodaeth am Brentisiaethau yn y ffordd fwyaf hygyrch a hwylus sy'n bosibl. |

| | |
|---|---|
| **10** | Gweithredu gweithgareddau *'Rhowch gynnig arni'* mewn ysgolion. Y nod fyddai helpu pobl ifanc sydd am wneud Prentisiaeth yn ddewis cyntaf – eu darparu drwy gydweithio ag ysgolion, colegau, darparwyr Prentisiaethau a Gyrfa Cymru. |
| **11** | Datblygu trefniadau ar gyfer gweithgarwch ar lefel gradd mewn meysydd allweddol yn y rhaglen Brentisiaethau, gan ymgysylltu â darparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach, cyflogwyr a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. |
| **12** | Adolygu i bennu a oes angen newidiadau mewn deddfwriaeth i gynnal system Brentisiaethau ymatebol yng Nghymru. |
| **13** | Ymgymryd â datblygiadau wrth weithredu'r argymhellion yn adolygiad Diamond er mwyn sicrhau bod system addysg ôl-orfodol lwyddiannus a chynhwysfawr yng Nghymru sy'n gwneud y defnydd mwyaf posibl o gydweithredu dichonol rhwng addysg uwch a phartneriaid/sectorau eraill. |
| **14** | Ymgysylltu'n well â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a/neu sydd â nodweddion gwarchodedig (oed, rhywedd, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl) ar y rhaglen. |
| **15** | Ymgynghori ar fanteision a gwerth Fframweithiau Meistr Grefftwr mewn Peirianneg. |
| **16** | Ystyried sut y gellir ehangu fframweithiau i gynnwys modiwlau ar reoli busnes ac entrepreneuriaeth. |
| **17** | Gwella'r dull o ddarparu Prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gynhyrchu a chyflawni cynllun gwella 4 pwynt. |
| **18** | Adolygu gweithrediadau presennol Prentisiaethau a Rennir er mwyn sicrhau bod rhagor o gymorth prif ffrwd ar gael i gynnal gweithgareddau ymgysylltu â sectorau. |
| **19** | Gweithredu system ddiagnostig ac adborth newydd ar gyfer cyflogwyr sy'n talu'r Ardoll Brentisiaethau. |
| **20** | Adeiladu ar Brentisiaethau Uwch i ddatblygu llwybrau gwahanol at sgiliau lefel uwch gyda Phrentisiaethau sy'n cynnwys cymwysterau lefel gradd. Bydd cynigion i gyllido'r gwaith o gyflwyno'r dull hwn yn cael eu dwyn ymlaen yn ystod 2017. |
| **21** | Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar Brentisiaethau. |

## Yr Ail Flwyddyn – 2017-18

Yn yr ail flwyddyn byddwn yn adolygu ein dull o gynllunio ar gyfer darparu sgiliau i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhyrchir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn eu Cynlluniau Rhanbarthol blynyddol yn dylanwadu ar y blaenoriaethu ar gyllid yn y dyfodol. Cyflwynir system newydd ar gyfer datblygu Fframweithiau a Safonau Prentisiaeth yng Nghymru.

| | Camau gweithredu – Beth rydym yn ei wneud? |
|---|---|
| **1** | Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, gyda chymorth y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn gweithio i gysoni'r ddarpariaeth sgiliau ôl-16 â'r wybodaeth sydd ar gael, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng anghenion cyflogwyr ym mhob rhanbarth a'r cyflenwad sgiliau. |
| **2** | Treialu gweithgarwch ar lefel gradd gan ddarparu cyfleoedd i symud ymlaen o ysgolion a Phrentisiaethau ar lefel 3. |
| **3** | Gweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus i greu amrywiaeth o raglenni gweithlu Gwasanaethau Cyhoeddus i yrru moderneiddio, effeithlonrwydd a gwelliannau ar draws y sector; drwy gymhwyso gwell sgiliau ymysg y gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi cynlluniau Prentisiaethau penodol ar gyfer Awdurdodau Lleol, y GIG a gwasanaethau 'golau glas'. |
| **4** | Ystyried cyflwyno treial Cyn Prentisiaeth i annog pobl ifanc i gymryd Prentisiaethau a chynorthwyo cyflogwyr wrth ddarparu Prentisiaethau i bobl ifanc |
| **5** | Cydweithio â gwledydd ar draws yr Undeb Ewropeaidd drwy'r Gynghrair Prentisiaethau Ewropeaidd er mwyn dysgu am yr arferion gorau mewn systemau Prentisiaethau. |
| **6** | Ymgysylltu'n well â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a/neu sydd â nodweddion gwarchodedig (oed, rhywedd, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl) ar y rhaglen |
| **7** | Er mwyn gwella olrhain, cynnydd a deallusrwydd, gwella'r trefniadau i rannu data rhwng ysgolion a darparwyr addysg ôl-16, yn enwedig mewn cysylltiad ag ystyried anghenion plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal. |
| **8** | Cynyddu'r cyfleoedd i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. |
| **9** | Camau posibl i gyflwyno safon Meistr Grefftwr ar gyfer adeiladu. |
| **10** | Canolbwyntio'n fwy ar Gystadleuaeth Sgiliau fel mecanwaith allweddol ar gyfer meincnodi llwyddiant mewn Prentisiaethau yng Nghymru. |
| **11** | Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar Brentisiaethau. |

## Y Drydedd Flwyddyn – 2018-19

Tystiolaeth o newidiadau yn y patrwm darparu; ehangu'r ddarpariaeth mewn sectorau allweddol; canlyniadau adolygiadau sector yn cyfrannu at ddarparu o dan gontract ac adolygu fframweithiau.

| | Camau gweithredu – Beth rydym yn ei wneud? |
|---|---|
| **1** | Ffurfioli cytundebau lefel gwasanaeth a phrotocolau rhwng ysgolion a sefydliadau ôl-16 i hwyluso pontio rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. |
| **2** | Parhau i wella'r mewnbwn gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddulliau o ddarparu Prentisiaethau a'u dylanwad ar symud y ddarpariaeth i sectorau sydd â blaenoriaeth. |
| **3** | Bydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn ystyried sut i ehangu rhaglenni Prentisiaeth mewn sectorau sydd â blaenoriaeth. |
| **4** | Cyfran fwy ar lefelau uwch ac yn y ddarpariaeth ar gyfer STEM. |
| **5** | Twf cymesur yn nifer y Prentisiaethau ar lefel Uwch a gostwng nifer y Prentisiaethau Sylfaen. |
| **6** | Parhau i ehangu Prentisiaethau gan gynnwys Prentisiaethau STEM a lefel uwch. |
| **7** | Gweithredu cynlluniau cydraddoldeb ar sail argymhelliad gan yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb – disgwylir y bydd hyn yn cynyddu cyfranogiad ymysg grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, yn ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen i gymunedau ac yn cynyddu cyfran y bobl o'r grwpiau hyn sy'n dilyn Prentisiaethau STEM a lefel uwch. |
| **8** | Camau posibl i gyflwyno safon Meistr Grefftwr ar gyfer adeiladu |
| **9** | Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar Brentisiaethau. |

## Y Bedwaredd Flwyddyn – 2019-20

Cyfuno a gwerthuso'r system; ystyried a oes angen newidiadau deddfwriaethol ac a oes cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gael i gefnogi integreiddio rhwng llwybrau ôl-16, yn enwedig darpariaeth sefydliadau addysg bellach a Phrentisiaethau.

| | Camau gweithredu – Beth rydym yn ei wneud? |
|---|---|
| **1** | Deddfwriaeth (os bydd ei hangen a lle mae cyfrwng deddfwriaethol priodol yn bodoli) i wella hyblygrwydd y rhaglen Brentisiaethau i fodloni gofynion cymwysterau sy'n newid yn gyflym ac ymateb i heriau polisi, ac os bydd angen, gweithredu elfennau o Adolygiad Diamond. |
| **2** | Gwerthuso'r system ar gyfer Adolygu a Datblygu Fframweithiau |
| **3** | Gwella'r broses o gynllunio ar gyfer darparu Prentisiaethau er mwyn cysoni'r ddarpariaeth yn well â sectorau sydd â blaenoriaeth sy'n bwysig i economi Cymru. |
| **4** | Datblygu polisi i hyrwyddo'r model Llwybrau Sgiliau fel mecanwaith i gysoni llwybrau dysgu ôl-16 a llwybrau dilyniant, gan gynnwys rhai ar gyfer sgiliau technegol lefel uwch. |
| **5** | Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar Brentisiaethau. |

## Y Bumed Flwyddyn – 2020-21

Model a dull darparu'r rhaglen wedi'u cysoni'n well ag anghenion yr economi; gwell cyrhaeddiad ymysg grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli; llwybrau cliriach at Brentisiaethau a mwy o ymwybyddiaeth o'r manteision.

Bydd o leiaf 100,000 o bobl wedi dechrau Prentisiaeth gyda'r cyfle i gael cyflogaeth neu hunangyflogaeth barhaus ar y diwedd a rhagolygon am ddatblygu gyrfa yn y dyfodol.

| | Camau Gweithredu a Chanlyniadau – Beth rydym yn ei wneud? |
|---|---|
| **1** | Llwybrau cliriach at Brentisiaethau i rai 16-19 oed lle mae cyfleoedd/lleoedd gwag yn cael eu hyrwyddo'n agored gan gyflogwyr i ddenu'r ymgeiswyr gorau. |
| **2** | Mwy o ymwybyddiaeth o Brentisiaethau ymysg pobl ifanc, rhieni ac ysgolion. |
| **3** | Gwell mesurau perfformiad ar gyfer Prentisiaethau, yn cynnwys mesurau o ganlyniadau cyflogaeth. |
| **4** | Mwy o brentisiaid yn cymryd Prentisiaethau lefel uchel, yn enwedig mewn pynciau STEM a/neu sectorau sydd â blaenoriaeth. |
| **5** | Tystiolaeth o newid yn y ddarpariaeth tuag at Brentisiaethau o werth uwch gyda chanlyniadau llwyddiannus o ran dilyniant, cwblhau a chyflogaeth gynaliadwy. |
| **6** | Mwy o integreiddio a chysoni wrth ddarparu Prentisiaethau ac addysg bellach mewn meysydd pwnc technegol a galwedigaethol ar gyfer rhai 16-19 oed, gyda thystiolaeth o ddilyniant a defnydd effeithlon o adnoddau rhwng y sectorau hyn. |
| **7** | Cydweithio rhanbarthol cryf rhwng sefydliadau dysgu, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol i ddarparu'r sgiliau y mae ar gyflogwyr eu hangen. |
| **8** | Mwy o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu a chyfrannu at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |
| **9** | Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar Brentisiaethau. |

# Cyrraedd Ein Nodau Datblygu Cynaliadwy

| Nod Llesiant | Gweithgarwch Prentisiaeth | Dangosyddion a Mesurau Cenedlaethol<br><br>Tystiolaeth sy'n helpu i fesur y cyflawniad ar Nodau |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Darparu sgiliau ar lefelau uwch a darparu dewis deniadol yn ogystal ag addysg uwch draddodiadol sy'n helpu i drechu tlodi drwy gynyddu enillion a chynnwys pobl ifanc.<br><br>Cymryd golwg hirdymor drwy gryfhau'r llwybrau at gyflogaeth o'r ysgol dros y 10-25 mlynedd nesaf.<br><br>Atal pobl ifanc rhag dod yn NEET neu rhag dechrau rhaglenni addysg bellach galwedigaethol na fyddant yn darparu cyfleoedd a hyfforddiant seiliedig ar waith.<br><br>Ymdrin mewn **ffordd integredig** â datblygu Prentisiaethau lle mae Prentisiaethau'n denu diwydiannau; yn cynnal diwydiannau; yn paratoi pobl; yn darparu dewisiadau; yn cynnig dewis yn lle prifysgol draddodiadol.<br><br>Hybu **cydweithio** rhwng addysg uwch ac addysg bellach er mwyn ehangu hyfforddiant i sectorau newydd. Creu llwybrau gwahanol at gyflogaeth nad ydynt o reidrwydd yn golygu astudio mewn prifysgol. | • Gwell cynhyrchiant: Monitro newidiadau mewn cynhyrchiant o'u cymharu â'r Deyrnas Unedig – ar hyn o bryd mae cynhyrchiant Cymru yn 83.7% o gynhyrchiant y Deyrnas Unedig . Mae hyn yn seiliedig ar y gwerth ychwanegol gros yr awr am waith yn 2014.<br><br>• Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (NEET): Sicrhau gostyngiad yn lefel y bobl ifanc 19-24 oed NEET o'i chymharu â lefel gyffredinol y Deyrnas Unedig erbyn 2017 .<br><br>• Cyfradd cyflogaeth: Newidiadau yn y gyfradd gyflogaeth o'i chymharu â'r Deyrnas Unedig – mae Cymru 3.7% yn is na'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd . |
| **Cymru gydnerth** | Datblygu a darparu Prentisiaethau yn sector yr amgylchedd sy'n hybu gallu Cymru i ymaddasu i newid. | • Darparu mwy o Brentisiaethau yn sector yr amgylchedd a chyfoeth naturiol |

[17] *Ffynhonnell: ONS regional Economic Analysis: Sub regional productivity indicators www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/datasets/subregionalproductivityproductivityhoursandproductivityjobsbynuts2andnuts3subregionsoftheunitedkingdom*

[18] *Ffynhonnell: Mesurau Llywodraeth Cymru o gyfranogi mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant*

[19] *Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Chwarter Chwefror 2016 i Ebrill 2016 – wwwstatswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Labour-Market-Summary/labourmarketsummary-by-measure-age-ukcountry-quarter*

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru iachach** | Mae Prentisiaethau'n creu gwell canlyniadau iechyd. Mae addysg yn benderfynydd cymdeithasol pwysig ar gyfer iechyd.<br><br>Mae gwella canlyniadau addysgol ymysg y grwpiau mwyaf difreintiedig yn gallu cael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldebau iechyd.<br><br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhai sydd â chyrhaeddiad addysgol uwch yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffyrdd iach ac yn llai tebygol o fabwysiadu arferion afiach. | Canran yr oedolion sydd â chymwysterau ar wahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol:<br><br>• Amcangyfrifwyd bod 10% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru wedi cofnodi nad oes ganddynt gymwysterau, yr un ganran â 2014.<br><br>• Roedd 76% o'r oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn dal cymwysterau lefel 2 o leiaf o'i gymharu â 77% yn 2014.<br><br>• Mae 57% o'r oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn dal cymwysterau hyd at y trothwy lefel 3, yr un ganran â 2014.<br><br>• Y ganran a oedd yn dal cymhwyster Addysg Uwch neu un cyfatebol (Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 4 neu'n uwch) oedd 36% o'i gymharu â 35% yn 2014. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Hybu amrywiaeth mewn Prentisiaethau a mynediad i bawb.<br><br>Mae Prentisiaethau'n darparu sgiliau trosglwyddadwy, fel bod prentisiaid yn hyfforddi ar gyfer mwy nag un swydd.<br><br>Mae Prentisiaethau uwch a phrentisiaethau gradd yn ehangu mynediad i'r proffesiynau.<br><br>Darparu llwybrau cliriach at Brentisiaethau ar gyfer rhai sy'n gadael gofal.<br><br>Cynyddu cyfranogiad grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a pharhau i wella'r cyfleoedd ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. | • Rhai sy'n Gadael Gofal: Cynyddu cyfran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 19 oed i 54% erbyn 2017.<br><br>• Cynyddu nifer y menywod sy'n dechrau Prentisiaeth ac ymestyn cynrychiolaeth gadarnhaol i'r holl sectorau.<br><br>• Cynyddu cyfran y prentisiaid o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. |

[20] *Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*
*www.gov.wales/statistics-and-research/levels-highest-qualification-held-working-age-adults/?lang=cy*

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru o gymunedau cydlynol** | Mae Prentisiaethau'n cefnogi busnesau bach a chanolig mewn cymunedau ac mae'r rhain yn eu tro yn cefnogi hyfywedd a thwf cymunedau. | • Mae data o'r Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr yn awgrymu bod lle i Brentisiaethau ddatblygu ymhellach y tu hwnt i'r 13% o gyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Brentisiaethau ar hyn o bryd, yn enwedig ymysg busnesau llai .<br>• Mae ychydig mwy na dwy ran o bump o'r cyfranogwyr (61%) mewn ardaloedd Cydgyfeirio yng Nghymru. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** | Mae rhaglenni prentisiaeth sy'n cael eu darparu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg yn hyrwyddo ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. | Mae targedau ar gyfer darparu Prentisiaethau dwyieithog yn y sectorau galwedigaethol a ganlyn:<br>• Gofal Plant<br>• Adeiladu<br>• Amaethyddiaeth |
| **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | RCodi perfformiad a sicrhau gwell canlyniadau i Gymru drwy gysylltu perfformiad a chyllid ar gyfer darparu.<br>Mae Ardoll Brentisiaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn creu mwy o alw am Brentisiaethau a chyfleoedd datblygu ehangach<br>Rhoi'r gallu i fusnesau hyfforddi pobl ar gyfer swyddi technegol a rhai anodd eu llenwi<br>Darparu prentisiaethau yn y sectorau hynny lle mae tystiolaeth o angen.<br>Darparwyr hyfforddiant sy'n targedu busnesau mewn meysydd lle mae tystiolaeth o brinder sgiliau yn y sector.<br>Darparu cyngor ar yrfaoedd a phynciau ysgol ar sail gwybodaeth am brinder sgiliau mewn sectorau. | • Cymwysterau: Canran yr oedolion o oedran gweithio sy'n dal cymwysterau uwch |

[21] *Evaluation of Work-Based Learning Programme 2011-14: Apprenticeships – Revised (SOCIAL RESEARCH NUMBER: 30/2016) (29/06/2016)* *www.gov.wales/docs/caecd/research/2016/160629-evaluation-work-based-learning-programme-2011-14-Apprenticeships-revised-en.pdf*

[22] *Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth* *www.gov.wales/statistics-and-research/levels-highest-qualification-held-working-age-adults/?lang=cy*



OGL © Hawlfraint y Goront 2017 WG30448 / ISBN Digidol 978-1-4734-8663-8